

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 4 Hydref 2019** am 9.00am yn 1887, Prifysgol Glyndŵr, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

Presennol

Mr Jim Barclay
 Mr Paul Barlow
 Ms Ebony Banks
 Yr Athro Maria Hinfelaar
 Mr Colin Heron
 Mr Kieran Irwin
 Mrs Celia Jenkins
 Yr Athro Sandra Jowett
 Mr Paul McGrady
 Dr Jayne Mitchell
 Mrs Judy Owen
 Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
 Mr David Sprake
 Mr David Subacchi
 Mrs Caroline Whiteley

Swyddogion:

Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*)
 Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
 Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-ganghellor*)
 Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
 Dr Aulay Mackenzie (*PVC Partnerships*)

Ymddiheuriadau:

Ms Laura Gough
 Mr Askar Sheibani
 Mrs Caroline Whiteley

Yn bresennol:

Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd*)
 Mr James Dawson (*Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr*) – eitemau XX yn unig

19.01	Croeso ac ymddiheuriadau	
	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.	
19.02	Datgan buddiannau	
	Datganodd Mrs Powell ei budd yn yr eitem agenda'n ymwneud â Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn ei rhinwedd fel Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y cwmni. Roedd hi'n bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.	
	Gwnaeth Mr Paul McGrady ddatgan budd yn yr eitem agenda'n ymwneud â gwaredu'r Chwarter Gogleddol.	
	Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau eraill gyda unrhyw eitem ar yr agenda.	
19.03	Cofnodion	

	<p>Derbyniwyd: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019.</p> <p>Penderfynwyd: Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019 yn gofnod gwir a chywir o drafodion y cyfarfod.</p>	
19.04	Materion yn codi	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.05	Aelodaeth	
	<p>Derbyniwyd: Cynnig gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar benodiad aelod cyfetholedig i'r pwyllgor.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO penodi Mr Bruce Roberts yn aelod cyfetholedig y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.</p>	
19.06	Adroddiad yr Undeb Myfyrwyr	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad blynyddol effaith yr Undeb Myfyrwyr 2018/19 yn cynnwys yr adroddiad canlyniadau Undebau Myfyrwyr Ansawdd Uchel.</p> <p>Adroddwyd: Diolchodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr i'r Bwrdd am eu hymwneud cadarnhaol a'u beirniadaeth adeiladol yn y diwrnod strategaeth ynghylch datblygu cynllun strategaeth newydd yr Undeb Myfyrwyr. Byddai'r rhan fwyaf o'u gwaith ar y cynllun newydd yn cynnwys ceisio adborth gan randdeiliaid. Wrth gyfeirio at yr adroddiad Undebau Myfyrwyr Ansawdd Uchel nodwyd y byddai'r argymhellion a wnaed yn cael eu cynnwys fel rhan o ddatblygu'r cynllun strategol.</p> <p>Diolchwyd i'r Is-ganghellor am ei hymateb i'r adroddiad effaith, a nodwyd yn benodol bod yr Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol yn cyd-fynd â'i gilydd yn yr ymrwymiad i sicrhau bod adborth asesu yn cael ei ddarparu'n gyson yn unol ag amserlen 15 diwrnod. Gofynnodd y Bwrdd am sylwadau ar gadw at yr amserlen adborth yn adroddiad effaith yr Undeb Myfyrwyr ar gyfer cyfarfod Gorffennaf 2020.</p> <p>Roedd y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr yn gweithio ar y cyd hefyd ar gais am gyllid iechyd meddwl gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer cymorth ychwanegol ar gyfer iechyd a lles myfyrwyr.</p> <p>Gwnaeth yr aelodau longyfarch yr Undeb Myfyrwyr ar eu cyflawniadau hyd yma, yn enwedig canlyniad yr Undeb Myfyrwyr Ansawdd Uchel, lle'r oedd yr holl feysydd wedi'u hasesu fel un ai da neu ragorol, a chroesawyd yr egni a'r brwdfrydedd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	UM
19.07	Adroddiad yr Is-ganghellor	

	<p>Derbyniwyd: Ymateb y Brifysgol i'r materion a godwyd yn adroddiad effaith yr Undeb Myfyrwyr 2018/19.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-ganghellor ei hymateb i adroddiad effaith yr Undeb Myfyrwyr ac ategodd y cyd-ymrwymiad i gadw at yr amserlen adborth asesu 15 diwrnod yn gyson. Nodwyd ei bod yn bwysig darparu adborth ansawdd uchel mewn cyfnod amser priodol yn hytrach nag adborth cyflym nad oedd o unrhyw fudd i'r myfyriwr. Roedd amseriad yn erbyn ansawdd yn her ar draws y sector ond y farn oedd bod 15 diwrnod tua iawn ac yn y canol rhwng y cyfnodau byrrach a hirach a welir mewn ystod o brifysgolion eraill. Hefyd roedd yn bwysig i fyfyrwyr fod yn glir ynghylch beth yw adborth, yn enwedig fel y gallant roi ymateb gwybodus i gwestiwn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ar y mater.</p> <p>Tynnwyd sylw nad oedd yr Undeb Myfyrwyr wedi cynnwys eu hymgysylltu a'u heffaith ar ganlyniad llwyddiannus yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn ei adroddiad, a oedd wedi bod yn amhrisiadwy.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad a CHYMERADWYO'r ymateb i adroddiad effaith yr Undeb Myfyrwyr 2018/19.</p>	
19.08	Adroddiad alldro a ragfynegir	
	<p>Derbyniwyd: Yr alldro a ragfynegir ar gyfer 2018/19.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at sut mae'r Brifysgol wedi rheoli ei hadnoddau yn ystod y flwyddyn, a arweiniodd at warged gweithredol cadarnhaol. Roedd dwy eitem allweddol wedi cael effaith arwyddocaol ar y sefyllfa alldro a ragfynegir: costau un tro'n unig yr ymarfer ailstwythuro a chydabyddiaeth yn gysylltiedig â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r rhai dros 55 oed y dilewyd eu swydd. Nid yw'n hysbys eto pu'n ai fydd y staff sy'n gymwys yn troi at eu cynlluniau pensiwn yn gynnar.</p> <p>Roedd y taliadau pensiwn FRS17 wedi dod i £576k yn erbyn amcangyfrif yn y flwyddyn o £560k a chyllideb o £1m. Esboniwyd effaith prisiad 2018 y Cynllun Blwydd-dal Prifysgolion a dyfarniad McCloud ar y gwarged net.</p> <p>Y canlyniad a ragfynegwyd oedd diffyg net o £411k. Byddai'n bwysig sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei hesbonio'n glir i randdeiliaid. Efallai y bydd mwy o newyddion da yn dilyn mireinio rhai amcangyfrifon ac adolygu'r sefyllfa Treth ar Werth, ond mae'r trafodaethau gyda'r archwilwyr yn parhau, ynghyd â'r drafodaeth ynghylch trin atebolrwyddau pensiwn o ganlyniad i'r dyfarniad McCloud. Holodd yr aelodau am effaith yr atebolrwyddau pensiwn ar y cyfamodau benthyciadau a dywedwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cyfarfod gydag AIB ym mis Tachwedd i drafod hyn.</p> <p>Eglurwyd y byddai peth adfachu gan CCAUC yng nghyswllt credydau rhan amser heb eu darparu, er bod peth darpariaeth wedi'i ryddhau o 2017/18 i liniaru hyn. Roedd y cynnig rhan amser yn cael ei adolygu a byddai'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn edrych yn fanylach ar y cynlluniau cyflawni ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Nodwyd bod nifer arwyddocaol o gyrsiau rhan amser wedi'u darparu'n flaenorol mewn cyfrifiadureg a pheirianeg lle mae prentisiaethau gradd yn cael eu cynnig yn awr. Roedd darparu cyrsiau byr yn her gan fod y farchnad ar</p>	

	<p>eu cyfer wedi lleihau. Dywedodd yr aelodau y dylai unrhyw danberfformio yn 2019/20 gael ei gynnwys fel ffactor yng nghyllidebau 2020/21.</p> <p>Mae cynhyrchu arian parod yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd ariannol ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr arian parod yn parhau'n agos at y rhagfynegiad. Roedd perfformiad yr is-gwmnïau'n agos at yr hyn a ragfynegwyd hefyd.</p> <p>Gwnaeth yr aelodau longyfarch y rheolwyr ar y gwarged gweithredol, gan nodi bod y taliadau pensiwn a oedd wedi lleihau'r gwarged net i sefyllfa ddiffyg y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. Nododd y Bwrdd petai'r holl brifysgolion yng Nghymru yn dangos diffyg byddai diddordeb gan y cyfryngau a byddai'n cael effaith ar enw da sector prifysgolion Cymru. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymateb gan y sector yng Nghymru. Mae'r mater ar agenda cyfarfod nesaf Prifysgolion Cymru.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.09	Campuws 2025	
	<p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Diweddariad ar faterion Campws 2025.</p> <p>(ii) Adroddiad ar ganlyniadau marchnata'r Chwarter Gogledd a'r cynigion a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau dechreuol.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Diweddariad Campws 2025 19.09.01</p> <p>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau bod adborth gan staff a myfyrwyr ar ardaloedd y campws wedi'u huwchraddio wedi bod yn gadarnhaol.</p> <p>Nodwyd y derbyniwyd cyngor gan yr ymgynghorwyr cynllunio a bargyfreithwyr ar yr apeladau cynllunio o ran Ffordd y Deon (Holt) a Gatewen. Cyflwynwyd yr apêl ynghylch Ffordd y Deon a byddai apêl Gatewen yn cael ei gyflwyno'n fuan. Y cam nesaf fyddai ymateb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a byddai oddeutu Ionawr 2020 pan fyddai'r arolygydd yn adolygu'r apeladau. Rhagwelir y bydd y Brifysgol yn cael ei hysbysu am ganlyniadau'r broses apêl tua haf 2020, yn unol â'r amserlen statudol 25-30 wythnos o ddyddiad cyflwyno'r apêl. Eglurwyd, petai'r apeladau cynllunio'n llwyddiannus, gellid adfer costau'r Brifysgol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Byddai'r nodyn yn deillio o archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddsbarthu i aelodau, er gwybodaeth.</p> <p>Roedd CCAUC wedi cadarnhau y byddai £750k o gyllid cyfalaf ar gael i'r Brifysgol ar gyfer 2019/20 yn ddarostyngedig ar gyflwyno cynnig llwyddiannus, ac roedd y grŵp llywio Campws 2025 yn datblygu'r cynigion gwario. Byddai'r cynllun incwm a gwariant i gyflawni Campws 2025 yn cael ei ddiweddarau ar sail costau cywirach, nawr bod rhai prosiectau uwchraddio wedi'u cyflawni a bod gwybodaeth costau mwy cywir ar gael. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd.</p> <p>Cadarnhawyd bod penodi rheolwr prosiect ar gyfer Campws 2025 wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar.</p> <p>19.09.02 Gwaredu'r Chwarter Gogleddol <i>Gadawodd Mr Paul McGrady yr ystafell ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem hon.</i></p> <p>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid bod trafodaethau'n parhau gyda KPMG o ran effaith gwerthu'r Chwarter Gogleddol os yw pris y farchnad yn is na'r</p>	VB

	<p>oddeutu £4.023m a nodir yn y fantolen. Tra na yw'r swm ar y fantolen yn eitem arian parod, byddai derbynion cyfalaf is yn llifo trwy'r cyfrif incwm a gwariant, a allai gael effaith andwyol. Bydd yn bwysig penderfynu ar amseru cydnabod unrhyw golledion potensial o'r fath, yn enwedig o ran yr effaith ar gyfamodau benthyciad AIB a'r angen i sicrhau benthyciad newydd yn y flwyddyn nesaf neu o gwmpas hynny.</p> <p>Byddai cronfeydd arian parod wrth gefn yn dangos cryfder ariannol mwy strategol a chryfhau'r fantolen yn y tymor hir. Byddai'n ofynnol cael trafodaeth ynghylch canran unrhyw dderbynion cyfalaf y dylid ei wario yn erbyn adneuo yn y cronfeydd wrth gefn.</p> <p>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y cynigion a dderbyniwyd ar gyfer y Chwarter Gogleddol a'r rhesymau na ellid gwneud penderfyniad cadarn ar y cam hwn. Cynghorodd bod cais arall wedi'i dderbyn gan Gymdeithas Dai, ond na ellid ei ystyried ar hyn o bryd gan ei fod wedi cyrraedd ar ôl y terfyn amser, ac roedd y cynnig yn is na'r ddau gynnig uchaf a oedd yn cael eu hystyried.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch cynnwys y ddau gynnig uchaf, a'r cynnig masnachol uchaf, a'r rhesymau am fynd yn ôl at y ddau gynigydd uchaf i gael ffigurau cymharol. Y farn oedd bod newid defnydd o 410 fflat dwysedd uchel i dai preswyl dwysedd is yn wynebu risg isel o gael ei wrthod.</p> <p>Byddai adroddiad terfynol gyda chynnig cadarn, ac Adroddiad Elusen, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ac i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.</p> <p>Penderfynwyd: CADARNHAU'R penderfyniad i symud i negodi masnachol gyda'r ddau gynigydd uchaf am y Chwarter Gogledd.</p>	
19.10	Gwyddoniaeth Gogledd Cymru – Tŷ Henblas	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar y caffael ar gyfer adnewyddu Tŷ Henblas er mwyn adleoli'r Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth, sy'n cael ei adnabod fel Techniquet Glyndŵr ar hyn o bryd.</p> <p>Adroddwyd: Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau sylw at y cynnydd a wnaed yn cytuno ar ddyluniad Tŷ Henblas ers ei gael yn Awst 2019. Byddai'r gwaith adnewyddu'n berthnasol i'r llawr gwaelod yn unig, a fyddai'n cynnwys caffi a lleoliad adwerthu. Roedd cyflawni'r prosiect wedi llithro ychydig, ond roedd nawr ar y trywydd cywir i agor ym mis Mawrth 2020.</p> <p>Roedd peth o'r gwaith a oedd yn ofynnol yn Nhŷ Henblas yn cynnwys uwchraddio'r seilwaith mecanyddol a thrydanol, to newydd a thynnu grisiau symudol allan. Roedd cynlluniau ar gyfer swyddfeydd a phlanetariwm ar yr ail lawr. Eglurwyd y byddai grisiau a liffiau'n aros yn eu lle i roi mynediad i'r ail lawr.</p> <p>Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru'n medru adfer Treth ar Werth.</p> <p>Penderfynwyd: CADARNHAU defnyddio porth caffael GwerthwchiGymru.</p> <p>NODI'R adroddiad.</p> <p>Derbyn adroddiad y broses dendro i GYMERADWYO dyfarnu'r tendr i'r cynigydd llwyddiannus ar 22 Tachwedd; a CHYMERADWYO awdurdod dirprwyedig i'r</p>	

	Cadeirydd ar y cyd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i gymeradwyo dyfarnu'r tendr ar gyfer yr uchafswm o £1,800,135 hen gynnwys TAW, os nad yw'n bosibl cyflwyno'r adroddiad ar y broses dendro ar 22 Tachwedd ar gyfer gwneud penderfyniad.	
19.11	Dadansoddiad yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, gwaith dilynol mewnol ac ymatebion	
	<p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Dadansoddiad pellach yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2019 (ii) Llythyr i CCAUC ynghylch canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (iii) Cynlluniau gweithredu ar gyfer rhaglenni'n sgorio cyfradd foddhad gyffredinol o lai na 70% am ddwy flynedd yn olynol <p>Adroddwyd:</p> <p>Cyflwynodd y Dirprwy Is-ganghellor yr adroddiad a phwysleisiodd bod yr ymateb i CCAUC wedi bod yn gyflwyniad ar y cyd gyda'r Undeb Myfyrwyr. Tra bo'r gyfradd foddhad gyffredinol wedi bod yn siomedig, bu rhai llwyddiannau, er enghraifft, roedd myfyrwyr cyrsiau anifeiliaid wedi perfformio'n wael yn yr Arolwg yn 2018 ond wedi cyflawni cyfradd foddhad 100% yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2019 o ganlyniad i arweinyddiaeth dda y rhaglen. Er mwyn mynd i'r afael â phynciau'n perfformio'n fwy gwael roedd cynllun gweithredu cyfadran wedi'i lunio ynghyd â chynllun gweithredu penodol ar gyfer adnoddau dysgu ac ar gyfer cwestiynau penodol yn yr Arolwg.</p> <p>Esboniwyd pa rai o saith rhaglen benodol y Brifysgol oedd yn dod o dan yr Hierarchaeth Cyfanredol Cyffredin (Common Aggregation Hierarchy (CAH)) yr oedd rhaglenni'n cael eu rhoi ynddi at ddibenion dadansoddi. Roedd gan rai o'r rhaglenni niferoedd myfyrwyr bychan. Petai'r saith rhaglen wedi sgorio'n isel yn cael eu heithrio byddai'r Brifysgol wedi cyflawni cyfradd foddhad cyffredinol o 83% a oedd yn dangos, oherwydd maint y Brifysgol, mae problemau mewn ychydig o feysydd wedi cael effaith arwyddocaol ar ymatebion y myfyrwyr a'r sgôr boddhad cyffredinol.</p> <p>Bu'r aelodau'n ystyried a oedd yr heriau'n ymwneud â dirnadaeth, a beth y gellid ei wneud i gynyddu'r sgorau yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, pan ei bod eisoes yn glir bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud. Adroddwyd bod rhagor o waith yn cael ei wneud ar lefel rhaglen a modiwl, yn cynnwys ffurflenni SEM yn cael eu rhannu'n gynharach yn y tymor newydd i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn gyflym, gweithio gyda'r Undeb Myfyrwyr ar gyfathrebu cadarnhaol a hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr, gwella'r cynefino i staff a'r hyfforddiant arweinyddion rhaglen. Gallai staff yn gadael y Brifysgol gael effaith negyddol ar brofiad dysgu myfyrwyr ac roedd y broses gadael yn cael ei rheoli gystal ag y bo modd, fodd bynnag, roedd oedi bob amser wrth adnewyddu darlithwyr gan ei bod yn cymryd amser i gwblhau'r broses recriwtio ac i staff newydd roi rhybudd eu bod yn gadael eu swydd gyffredol.</p> <p>Nodwyd tra ei bod yn ddefnyddiol gweld perfformiad y Brifysgol wedi'i feincnodi yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig a Chymru byddai'n ddefnyddiol gweld meincnodi yn erbyn perfformiad y Brifysgol ei hun. Cadarnhawyd bod hyn mewn llaw.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiadau a chadarnhau'r cynllun gweithredu.</p>	JD
19.12	Adroddiad y Cadeirydd	
	Adroddwyd:	

	<p>Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch yr uwch dîm ar y diwrnod strategaeth rhagorol a diolchodd i'r myfyrwyr am eu cyflwyniad. Roedd yr aelodau wedi mwynhau'r ymgysylltu gyda'r staff a'r myfyrwyr dros ginio.</p> <p>Roedd agoriad Parc y Glowyr gan y Gymdeithas Bel-droed yn rhagorol.</p> <p>Byddai'r Canghellor yn bresennol mewn dwy seremoni raddio a chinio'r Cymrodorion Anrhydeddus ddiwedd yr Hydref.</p> <p>Byddai'r Cadeirydd yng nghyfarfod y panel Adolygu Llywodraethu ar 9 Hydref, sesiwn gloi y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ar 10 ac 11 Hydref a chyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru ar 21 Tachwedd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.13	Y Bwrdd Academaidd	
	<p>Derbyniwyd: (i) Adroddiad am gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 10 Medi 2019. (ii) Siarter Myfyrwyr 2019/20.</p> <p>Adroddwyd: Adroddwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi cytuno ar y cylch gwaith ar gyfer ei adolygiad effeithiolrwydd, a fyddai'n cynnwys adolygu ei bwyllgorau a'r berthynas gyda'r Bwrdd Llywodraethwyr. Rhagwelwyd, yn dilyn ystyried yr adroddiad terfynol gan y Bwrdd Academaidd, y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ac yna'r Bwrdd Llywodraethwyr erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.</p> <p>Roedd datganiadau sicrwydd ansawdd y Bwrdd wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Medi a byddai'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn y papurau ar gyfer y Panel Craffu Safonau ac Ansawdd ym mis Hydref a'r Bwrdd ym mis Tachwedd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad a'r Siarter Myfyrwyr.</p>	
19.14	Risgiau Strategol Corfforaethol	
	<p>Derbyniwyd: (i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol. (ii) Map gwres risgiau.</p> <p>Adroddwyd: Roedd swm sylweddol o waith wedi'i wneud i adolygu a diweddarau'r gofrestr risgiau strategol er mwyn iddi gyd-fynd gyda'r Weledigaeth a Strategaeth 2025. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi'i blesio'n gweld y symud yn y sgorau risg, gan fod hyn yn dangos bod y rheolwyr yn monitro'r risgiau'n weithredol. Tynnwyd sylw at y rhesymau am y cynnydd yn y risg o gwmpas cynaliadwyedd ariannol.</p> <p>Gofynnodd yr aelodau, er mwyn hwyluso cyfeirio, bod y sgorau risg a gyflwynir yn y rhestr grynoded yn cael eu nodi wrth ochr pob un o'r risgiau a disgrifiadau'r camau lliniaru risgiau yn adroddiadau'r dyfodol. Croesawodd y Bwrdd weld disgrifiadau risg manylach yn flynyddol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	JD

19.15	Adroddiad Blynyddol y Bwrdd 2018/19	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr 2018/19.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R adroddiad fel crynodeb cywir o waith y Bwrdd yn ystod 2018/19 a'r cynllun gwaith ar gyfer 2019/20.</p> <p>CYMERADWYO rhannu'r adroddiad gyda'r Bwrdd Academaidd, y staff a CCAUC.</p>	
19.16	Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau	
	<p>Derbyniwyd: Crynodeb tri cylchlythyr CCAUC a gyhoeddwyd ers y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.17	Cofrestr buddiannau	
	<p>Derbyniwyd: Y gofrestr buddiannau wedi'i diweddarau ar gyfer 2019/20.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R Gofrestr.</p>	
19.18	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rheoli	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad blynyddol gwaith y pwyllgorau rheoli 2018/19.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.19	Pwyllgorau'r Bwrdd	
	19.19.01 Y Pwyllgor Archwilio	
	<p>Derbyniwyd: (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2019. (ii) Adroddiad canlyniadau adolygiad effeithlonrwydd blynyddol y Pwyllgor.</p> <p>Penderfynwyd: NODI bod cofnodion 20 Medi 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y Pwyllgor.</p> <p>NODI adroddiad canlyniau adolygiad effeithlonrwydd blynyddol y Pwyllgor.</p>	
	19.19.02 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid	
	<p>Penderfynwyd: NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019 wedi'u dosbarthu.</p>	
19.20	Canolfan Arbenigedd Ffotoneg	
	<p><i>Trafodwyd yr eitem hon dan unrhyw fater arall.</i></p> <p>Derbyniwyd:</p>	

	<p>Adroddiad ar y broses gaffael ar gyfer cyflenwi, danfon, gosod, comisiynu a chefnogaeth gynnal a chadw Peiriant Arwyneb Ffilm Tenau Gwactod Uchel gyda chyllid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).</p> <p>Adroddwyd: Amlinellwyd y broses gaffael gymhleth a'r sefyllfa hyd yma. Byddai angen i'r CPE fynd i'r un cynigydd sy'n cydymffurfio'n dechnegol i negodi telerau'r cytundeb terfynol. Roedd WEFO wedi cadarnhau bod hyn yn dderbyniol. Rhagwelwyd y byddai'r pecyn cytundeb yn barod i'w lofnodi a'i selio erbyn canol Hydref.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i adolygu'r adroddiad tendr a chymeradwyo dyfarnu'r cytundeb.</p>	
--	---	--

Diwedd